**(HCC 933)**

**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am Yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Iau 5 Mawrth 2020**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Huw Davies, Gareth Wynn Davies, John Davies, Rachael Madeley Davies, Helen Howells, Barrie Jones, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** Mark Alexander a Maria Richards, Llywodraeth Cymru

**Y Weithrediaeth yn bresennol:**
Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chydymdeimlodd â'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol yn dilyn profedigaethau teuluol yn ddiweddar.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd: -

19 – 21 Ionawr 2020 – Bu'r Cadeirydd yn cymryd rhan yn y broses o chwilio am bobl a allai fod yn Aelodau o Fwrdd HCC.

10 Chwefror 2020 – Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

11 Chwefror 2020 – Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Fwrdd Cynghori Marchnata HCC cyn mynd i gyfarfod diweddaru gyda Tim Render, Cyfarwyddwr Materion yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru.

12 Chwefror 2020 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghyfarfod diweddaru llywodraethu Llywodraeth Cymru / HCC.

16 – 19 Chwefror 2020 – Bu'r Cadeirydd ar y panel i benodi Aelod o Fwrdd HCC. Cafodd argymhellion y panel eu cyflwyno erbyn hyn i'r Gweinidog eu hystyried.

24 – 26 Chwefror 2020 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghynhadledd flynyddol NFU Cymru.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

   Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

   Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 16 Ionawr 2020 (HCC 925)**

   Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 16 Ionawr 2020 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

   *Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a Chostau Adennill 2020 / 2021*

   Nodwyd bod y Gweinidog wedi cytuno ag argymhelliad y Bwrdd y dylai'r ardollau aros fel y maent ar gyfer 2020 / 2021.

   *Rhwymedigaeth Ddigwyddiadol  Adran 75 Pensiwn*

   Roedd y gwaith yn mynd rhagddo ac nid oedd unrhyw ddiweddariad ar hyn o bryd.

   *Brexit*

   Nid oedd unrhyw ddiweddariad na datblygiadau o bwys i'w hadrodd ar hyn o bryd a chytunwyd felly i ohirio trafodaethau tan y cyfarfod nesaf.

   *Cynllun Corfforaethol HCC 2020 / 2023 a Chynllun Gweithredol 2020 / 2021*

   Nodwyd bod Swyddogion wedi cynghori'r Gweinidog am yr uchod a bod disgwyl ymateb.

   *Ailwladoli Ardoll*

   Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad o'r newyddion da yn dilyn trafodaethau helaeth rhwng y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), HCC a Quality Meat Scotland (QMS), sef bod yna gytundeb i gynyddu'r Gronfa Glustnod (RFF) ar gyfer blwyddyn ariannol 2020 / 2021 i £3.5m. Roedd hyn yn gynnydd o £1.5m i'r swm o £2m a bennwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

   Câi'r swm o £3.5m ei ddefnyddio ar y cyd i hybu sector cig Prydain, gan ganolbwyntio ar waith mewn gwledydd tramor ac allforio, ynghyd â materion addysg ac iechyd mewn perthynas â chig coch.  Defnyddid yr arian ychwanegol i

ganolbwyntio'n benodol ar wella enw da cig ymhlith defnyddwyr, mynd i'r afael â chamsyniadau a hyrwyddo manteision bwyta cig coch wedi'i gynhyrchu yn gynaliadwy.

Roedd y cytundeb yn un dros dro tan 31 Mawrth 2021.

Fel y clywodd y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2020, câi'r cynnydd a wnaed o ran y fethodoleg Ardoll ac ailddosbarthu Ardollau ei ddatblygu ymhellach, yn amodol ar yr hyn a ddigwyddai i Fil Amaethyddiaeth y DG a oedd yn cael ei adolygu gan y Senedd ar hyn o bryd.

*EIDCymru*

Byddai'r Prif Weithredwr yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bwrdd yn cael ei friffio ar EIDCymru / Amlrywogaeth Cymru  mewn cyfarfod yn y dyfodol.

6. **Adroddiadau HCC**

a. Gweithgareddau (HCC 926)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Map Trywydd HCC ar gyfer Cynaliadwyedd*

Rhoddodd Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant gyflwyniad byr ynglŷn â'r uchod.  Roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r Map Trywydd.  Roedd yn cael ei adolygu gan gymheiriaid ar hyn o bryd ac roedd disgwyl iddo gael ei lansio ddechrau Mehefin 2020.

b. I dderbyn diweddariad am ymgyrch HCC i ddefnyddwyr – Cynaliadwyedd Cig Coch Cymru – Y Ffordd Gymreig

Cafwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Datblygu'r Farchnad ynghylch cynnydd yr uchod oddi ar  y cyfarfod blaenorol: -

Roedd yr ymgyrch wedi dechrau ym mis Ionawr 2020 a byddai'n rhedeg tan ddiwedd mis Mawrth 2020.

Amcan yr ymgyrch oedd targedu defnyddwyr ar draws Cymru a Lloegr â negesau am gynaliadwyedd cig coch o Gymru.

O ran strategaeth, cafodd amryw o ddeunyddiau creadigol eu hailwampio a'u cryfhau, gan gynnwys hysbysebion darlledu a digidol wedi'u targedu at ddefnyddwyr.

Câi'r ymgyrch ei werthuso a châi'r canlyniadau eu rhannu â'r Bwrdd maes o law.

c. I gael diweddaraiad am fynediad i'r farchnad, gweithgareddau Datblygu'r Farchnad a data masnach 2019

Cyflwynwyd adroddiad am y diweddaraf ynghylch y farchnad allforio gan y Rheolwr Datblygu'r Farchnad

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r diweddaraf am fynediad i'r farchnad ar gyfer cig oen Seland Newydd a sut oedd yn cael effaith ar gyfleoedd i Gig Oen Cymru, yr Unol Daleithiau, marchnadoedd Halal, Tsieina, Taiwan, Mecsico a Fiet-Nam. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys ystadegau ynghylch y gogwyddiadau cyffredinol ar gyfer 2019 mewn cymhariaeth â 2018 ar gyfer allforion, cig defaid, cig eidion a chig llo a chig moch.

Ar y cyfan, roedd y farchnad allforio ar hyn o bryd mewn sefyllfa dda a chyson. Fodd bynnag, nodwyd y gallai hyn newid yn ddramatig pe bai'r Coronafeirws yn ymledu o gwmpas y byd. Câi hyn effaith yn ogystal ar weithgareddau a gynlluniwyd gan HCC. Roedd Ffair Fasnach Foodex, Tokyo, Siapan (10 - 13 Mawrth 2020) a Ffair Fasnach FHA, Singapôr (31 Mawrth – 3 Ebrill 2020) eisoes wedi eu canslo. Roedd yn debygol hefyd y byddai'r un peth yn digwydd i Ffair Fasnach Tavola, Gwlad Belg (15 – 17 Mawrth 2020).

d. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 927)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

e. Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Rhagfyr 2019 (HCC 928)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol, heb unrhyw faterion i'w codi.

Nodwyd y byddai canslo digwyddiadau oherwydd Covid-19 yn cael effaith ar wariant. Câi hyn ei adolygu gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol a cheid adroddiad cyfatebol.

f. Digwyddiadau i ddod (HCC 929)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

## 7. Pwyllgorau HCC

### *Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata*

a. I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Llun 11 Chwefror 2020

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)***

b. I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE) a gynhaliwyd ddydd Mercher 5 Chwefror 2020

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

**Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu**

c. I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 16 Ionawr 2020 (HCC 931)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

8. **Papur er gwybodaeth: Ymateb HCC i'r alwad am dystiolaeth ynghylch targedau hinsawdd yng Nghymru i gyfrannu at gyngor am Chweched Gyllideb Garbon y DG (HCC932)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gymeradwyo i'r Bwrdd fel ymateb cryf i'r pwnc allweddol hwn.

9. **Unrhyw fater arall**

*I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod yr Is-bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Mawrth 2020*

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

*Aelodau o'r Bwrdd sy'n Ymadael*

Diolchodd y cadeirydd i Aelodau o'r Bwrdd sy'n ymadael, sef Helen Howells, Barrie Jones ac Ogwen Williams, am eu hymdrechion a chyfraniadau i Fwrdd HCC yn ystod y tair blynedd diwethaf a dymunodd yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ddydd Iau 7 Mai 2020. Byddai'r Gweinidog yn bresennol ar gyfer rhan o'r cyfarfod hwn. Byddai'r Prif Weithredwr yn ymgysylltu â swyddogion ynghylch y trefniadau.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**